Ministry of Justice

# Dedfrydu Llofruddiaeth

## Ymgynghoriad ar y man cychwyn ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf mewn perthynas â'r ddedfryd oes orfodol ar gyfer llofruddiaeth, ar gyfer achosion a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth ac achosion sy'n ymwneud â defnyddio cyllell neu arf arall.


Tachwedd 2023

CP 972

Ministry of Justice

# Dedfrydu Llofruddiaeth

## Ymgynghoriad ar y man cychwyn ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf mewn perthynas â'r ddedfryd oes orfodol ar gyfer llofruddiaeth, ar gyfer achosion a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth ac achosion sy'n ymwneud â defnyddio cyllell neu arf arall.

Cyflwynwyd i Senedd y DU
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Tachwedd 2023

CP 972

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol:murdersentencingconsultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4569-0

E03020145 11/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **At:** | Anelir yr ymgynghoriad hwn at unrhyw un sydd â diddordeb mewn mannau cychwyn dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth a lladdiad domestig. Mae'n agored i'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr. |
| **Hyd:** | O 27/11/23 hyd at 04/03/24 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Sentencing and Parole Policy Division<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: murdersentencingconsultation@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Byddai'n well gennym pe baech yn cwblhau'r ymgynghoriad ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/murder-sentencing-consultation/<br><br>Fel arall, anfonwch eich ffurflen adborth ymgynghoriad wedi'i llenwi atom drwy e-bost neu drwy'r post i'r manylion cyswllt "Ymholiadau" uchod. |
| **Ffyrdd ychwanegol i chi roi eich barn:** | Trefnir cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid lle bydd safbwyntiau a sylwadau'n cael eu hystyried. |
| **Papur ymateb:** | Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn maes o law yn. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn GOV.UK. |

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| Cyflwyniad | 8 |
| Cefndir | 9 |
| Y Fframwaith Dedfrydu | 12 |
| Rhaglen Ehangach o Ddiwygio | 17 |
| Adran 1: Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth | 21 |
| Adran 2: Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall | 26 |
| Holiadur | 32 |
| Gwybodaeth amdanoch chi | 35 |
| Manylion Cyswllt/Sut i ymateb | 36 |
| Asesiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb | 38 |
| Egwyddorion ymgynghori | 39 |
| Atodiad A | 40 |

# Rhagair

Bob blwyddyn, mae tua 90 o bobl – menywod yn bennaf – yn cael eu lladd gan eu cyn-bartner neu eu partner presennol, gan adael eu teuluoedd wedi'u distrywio gydag oes o alar dirdynnol. Mae mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, a sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni'r troseddau llwfr hyn yn bwrw dedfrydau sy'n wirioneddol adlewyrchu difrifoldeb eu troseddau, yn flaenoriaeth i mi fel Arglwydd Ganghellor, ac i'r Llywodraeth hon.

Mae pob achos o lofruddiaeth yn haeddu dedfryd oes orfodol. Mae ein fframwaith dedfrydu presennol hefyd yn nodi canllawiau i farnwyr sy'n penderfynu ar y cyfnod byrraf y mae'n rhaid i droseddwr ei dreulio yn y carchar cyn cael ei ystyried ar gyfer ei ryddhau gan y Bwrdd Parôl i dreulio gweddill ei ddedfryd oes ar drwydded yn y gymuned.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y lefel sylweddol o ragfwriad a throseddoldeb sy'n gysylltiedig â meddu ar arfau'n anghyfreithlon a'r angen i ddiogelu'r cyhoedd rhag defnyddio arfau ar ein strydoedd. Ceir ystod o fannau cychwyn ar gyfer achosion llofruddiaeth sy'n dechrau ar 15 mlynedd, gyda man cychwyn o 30 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau sy'n ymwneud ag arfau tanio. Ac yn 2010, yn dilyn llofruddiaeth Ben Kinsella – a gafodd ei drywanu i farwolaeth ar y stryd yn yr hyn y credid ei fod yn achos o gamadnabod – ychwanegwyd man cychwyn 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall a gymerwyd i'r lleoliad gyda bwriad.

Mae tua chwarter yr holl laddiadau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cyflawni gan bartner, cyn-bartner neu berthynas y dioddefwr, ac mae'r rhan fwyaf o'r llofruddiaethau domestig hyn yn digwydd yn y cartref. Felly, pan ddefnyddir arf – cyllell gegin yn aml – mae fel arfer eisoes yn y lleoliad. Mae hyn yn golygu, er bod arfau'n cael eu defnyddio'n aml mewn llofruddiaethau domestig, nad yw'r troseddau hyn fel arfer yn gymwys ar gyfer un o'r mannau cychwyn uwch.

Y llynedd, ystyriodd Clare Wade KC hyn, a materion ehangach, yn ei hadolygiad annibynnol pwysig o ddedfrydu mewn achosion o laddiad domestig. Tynnodd yr adolygiad sylw at nifer o themâu allweddol mewn llofruddiaethau domestig. O'r achosion llofruddiaeth a ddadansoddwyd, roedd gan dros hanner ohonynt hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn y dioddefwr, roedd 60 y cant yn ymwneud â thrais parhaus a gormodol, a elwir yn 'or-laddiad', ac roedd ychydig o dan hanner yn gysylltiedig â diwedd perthynas y cyflawnwr â'r dioddefwr.

Gwnaethom weithredu'n gyflym mewn ymateb. Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno ffactorau gwaethygol statudol newydd ar gyfer llofruddiaethau sy'n cael eu rhagflaenu gan ymddygiad sy'n rheolaethol neu'n orfodaethol yn erbyn dioddefwr y

llofruddiaeth, ar gyfer y rheini sy’n ymwneud â ‘gor-laddiad’, ac ar gyfer llofruddiaethau sy’n gysylltiedig â diwedd perthynas. A bydd ffactor lliniarol statudol newydd ar gyfer achosion lle’r oedd y cyflawnydd yn destun ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Er mai mater i’r barnwr yw penderfynu ar y pwysau priodol i’w roi i’r ffactorau gwaethygol a lliniarol wrth ddedfrydu, rydym yn disgwyl, gyda’i gilydd, y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyfnodau byrraf o garchar a roddir i’r cyflawnwyr yn yr achosion hyn.

Mae’r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer diwygio yn y maes hwn wedi cael eu hystyried yn llawn. Mae’r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch a ddylai man cychwyn uwch fod yn berthnasol i lofruddiaethau a ragflaenir gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, ac i bob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall – newid a fyddai’n debygol o arwain at gyfnodau byrraf hirach yn yr achosion hyn.

Hoffwn ddiolch i Carole Gould a Julie Devey am eu hymgyrch ddiflino i sbarduno diwygio yn y maes hwn ar ôl marwolaeth drasig eu merched, Ellie a Poppy, a laddwyd gan eu partneriaid. Mae eu dewrder a’u penderfyniad yn wyneb dioddefaint eithriadol yn ysbrydoledig.

Mae’r Llywodraeth yn cydnabod bod hwn yn faes cymhleth o’r gyfraith ac yn un sy’n galw am ystyried ystod eang o safbwyntiau. Byddwn yn annog unrhyw un sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes cyfreithiol hwn i ymateb i’r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Mae hwn yn ymgynghoriad pwysig a fydd yn helpu i hysbysu a oes angen rhagor o ddiwygio, er mwyn sicrhau bod gennym fframwaith dedfrydu sy’n cosbi’n briodol y rhai sy’n cyflawni’r drosedd erchyll hon, ac sy’n rhoi’r cyfiawnder y maent yn ei haeddu i deuluoedd dioddefwyr.

**Y Gwir Anrhydeddus Alex Chalk KC AS**

**Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder**

# Crynodeb Gweithredol

Llofruddiaeth yw'r drosedd fwyaf difrifol y gall person ei chyflawni, a rhaid i ni sicrhau bod y ddedfryd ym mhob achos yn gymesur â difrifoldeb y trosedd. Dylai pawb deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain a rhaid i'n fframwaith dedfrydu adlewyrchu difrifoldeb trais a cham-drin a gyflawnir gan y rhai agosaf atynt.

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth[1] i roi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith dedfrydu, fel y cyhoeddwyd mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, a gynhaliwyd gan Clare Wade KC. Roedd y mesurau hyn yn ymateb uniongyrchol i argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad yn dangos newid sylweddol yn y ffordd y mae ein fframwaith dedfrydu yn ymateb i achosion o lofruddiaeth ddomestig.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod materion a fyddai'n elwa o gael eu hystyried ymhellach, y tu hwnt i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad. Dyna pam yr ydym hefyd wedi ymrwymo i lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer diwygio yn y maes hwn wedi cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar fan cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer (i) achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, a (ii) pob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall.

## Adran 1 - Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth

Anaml iawn y mae achosion o lofruddiaeth domestig yn ddigwyddiadau ynysig, ac maent yn aml yn benllanw blynyddoedd o gam-drin. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth sy'n nodi ein fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth am y tro cyntaf ugain mlynedd yn ôl ac nid yw ar hyn o bryd yn cynnwys unrhyw ystyriaeth benodol o ddifrifoldeb llofruddiaethau domestig a'r cam-drin sy'n aml yn rhagflaenu'r achosion hyn, naill ai yn y mannau cychwyn neu'r ffactorau gwaethygol neu liniarol statudol.

[1] Rheoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygiad i Atodlen 21) 2023 a gyflwynwyd yn y Senedd ar 23 Hydref 2023

Fel rhan o ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth[2] i newid hyn. Bydd ffactorau gwaethygol statudol newydd ar gyfer llofruddiaethau sy'n cael eu rhagflaenu gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, ac ar gyfer gor-laddiad. Byddwn hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i wneud lladd sy'n gysylltiedig â diwedd perthynas yn ffactor gwaethygol statudol, pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny.

Er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer diwygio wedi cael eu hystyried, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael man cychwyn ar gyfer achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, ac os felly, beth ddylai hyn fod.

Yr ystyriaeth olaf yn yr adran hon yw a ddylai man cychwyn ar gyfer achosion o'r fath ond fod yn berthnasol pan oedd yr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol ar ben uchaf y raddfa ddifrifoldeb. Er bod yr ymddygiad hwn yn ddifrifol ym mhob achos, gall y difrifoldeb cymharol amrywio'n sylweddol.

## Adran 2 - Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall

Ar hyn o bryd, mae Atodlen 21 yn cyfeirio'n gyffredinol at yr amgylchiadau pan ddigwyddodd y lladdiad, ac nid at y modd yr achoswyd y farwolaeth. Yr eithriadau i hyn yw'r man cychwyn 25 mlynedd sy'n berthnasol i lofruddiaethau yn unig lle aethpwyd â chyllell neu arf i'r safle gyda bwriad, a'r man cychwyn 30 mlynedd sy'n berthnasol i lofruddiaethau sy'n ymwneud ag arfau tanio.

Codwyd pryderon nad yw Atodlen 21 yn cynnwys man cychwyn penodol ar gyfer pob llofruddiaeth arall a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall. Mae'r pryder hwn yn arbennig o berthnasol i achosion o lofruddiaeth ddomestig sy'n digwydd yn fwy cyffredin mewn cartref, ac felly os defnyddir arf, cyllell gegin yn aml, mae'n debygol ei fod eisoes wedi bod yn y fan hon, ac felly ni fyddai'r man cychwyn 25 mlynedd yn berthnasol.

Ystyriwyd y mater hwn yn yr Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig a bydd y ddeddfwriaeth[3] rydym wedi'i chyflwyno mewn ymateb i hyn yn rhoi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth am y tro cyntaf.

Ers i'r Llywodraeth gyhoeddi ein hymrwymiad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, mae rhai wedi dadlau nad yw'r newidiadau hyn yn mynd yn ddigon pell a bod gwahaniaeth annheg

[2] ibid

[3] Rheoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygiad i Atodlen 21) 2023 a gyflwynwyd yn y Senedd ar 23 Hydref 2023

o hyd rhwng y mannau cychwyn ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf a aethpwyd i'r lleoliad gyda bwriad (25 mlynedd) a phob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall (fel arfer 15 mlynedd, ac eithrio llofruddiaethau sy'n ymwneud ag arfau tanio). Felly, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cael man cychwyn ar gyfer pob achos arall o lofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall, er mwyn dileu neu leihau'r gwahaniaeth hwn, ac os felly, beth ddylai hyn fod.

Yr ystyriaeth olaf yn yr adran hon yw a ddylid datgymhwyso man cychwyn ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf oddi wrth gyflawnwyr sy'n dioddef camdriniaeth ac sydd wedi lladd y sawl sy'n eu cam-drin.

# Cyflwyniad

Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn am farn ar fan cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer (i) achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, a (ii) pob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall.

Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at bawb sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc sy'n cael sylw yn y papur hwn yng Nghymru a Lloegr. Bydd y papur ymgynghoriad yn agored am 14 wythnos a bydd yn cau ar 04 Mawrth 2024.

Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/murder-sentencing

Mae Asesiad o'r Effaith wedi'i baratoi a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Croesewir sylwadau am yr Asesiad o'r Effaith.

Mae cyfarwyddiadau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar dudalen 36. Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn 04 Mawrth 2024. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion a dderbynnir yn ofalus ac wedyn yn cyhoeddi ymateb.

# Cefndir

## Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig

Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd y Llywodraeth yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, a gynhaliwyd gan Clare Wade KC.

Comisiynodd y Llywodraeth yr adolygiad hwn mewn ymateb i bryderon a godwyd gan nifer o randdeiliaid gan gynnwys y Comisiynydd Cam-drin Domestig a'r Comisiynydd Dioddefwyr, a hefyd gan rieni dwy fenyw ifanc, Poppy Devey Waterhouse ac Ellie Gould, a gafodd eu llofruddio'n drasig gan eu cyn-gariadon yn 2018 a 2019.

Mae tua chwarter yr holl laddiadau yng Nghymru a Lloegr yn cael eu hystyried yn ddomestig; hynny yw, maen nhw'n cael eu cyflawni gan bartner, cyn-bartner neu berthynas y dioddefwr. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o bron i 160 o laddiadau bob blwyddyn, gyda bron i 90 o'r rhain yn cael eu cyflawni gan bartner neu gyn-bartner.

Mae'r rhan fwyaf o laddiadau domestig yn cael eu cyflawni gan ddynion yn erbyn menywod. Canfu'r Adolygiad fod y dioddefwr, mewn llawer o'r achosion hyn, wedi dioddef blynyddoedd o gamdriniaeth cyn ei farwolaeth. Pan fydd menywod yn cyflawni lladdiad domestig, yn aml (ond nid ym mhob achos) mae'n digwydd ar ôl iddynt ddioddef camdriniaeth a'u bod wedi lladd yr unigolyn sydd wedi bod yn eu cam-drin.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n nodi ein fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth wedi'i chynnwys yn Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020. Fe'i cyflwynwyd gyntaf yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003 tua ugain mlynedd yn ôl ac nid yw'n cynnwys unrhyw ystyriaeth benodol i ddifrifoldeb lladdiadau domestig a'r cam-drin sy'n aml yn rhagflaenu'r achosion hyn.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae ein dealltwriaeth gymdeithasol a chyfreithiol o gam-drin domestig wedi datblygu, a chanfu'r Adolygiad fod angen diweddaru ein fframwaith dedfrydu ar gyfer lladdiad i adlewyrchu hyn.

## Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Dedfrydu Lladdiadau Domestig

Cyhoeddwyd ymateb llawn y Llywodraeth i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig ym mis Gorffennaf, ac mae'n yn dangos newid sylweddol yn y ffordd y mae ein fframwaith dedfrydu yn ymateb i achosion o lofruddiaeth ddomestig.

Am y tro cyntaf, bydd difrifoldeb llofruddiaethau domestig a'r niwed penodol sy'n codi yn yr achosion hyn yn cael ei gydnabod yn ein fframwaith dedfrydu. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r drwgweithredwyr dderbyn dedfrydau sy'n wirioneddol adlewyrchu difrifoldeb y troseddau hyn.

Mae'r pecyn o fesurau yn yr ymateb llawn yn cynnwys:

- Newidiadau deddfwriaethol i roi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.
  - Mae'r ddeddfwriaeth hon bellach wedi'i chyflwyno:
    - Bydd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y cyflawnydd yn erbyn y dioddefwr yn ffactor gwaethygol statudol.
    - Bydd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y dioddefwr yn erbyn y cyflawnydd yn ffactor lliniarol statudol.
    - Bydd trais sydd gyfwerth â gor-laddiad yn ffactor gwaethygol statudol.
  - Cyflwynir y ddeddfwriaeth hon pan fydd amser seneddol yn caniatáu:
    - Bydd lladd sy'n gysylltiedig â diwedd perthynas, neu fwriad y dioddefwr i derfynu perthynas, yn ffactor gwaethygol statudol.
- Mesurau anneddfwriaethol i wella'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn ymateb i achosion o laddiad domestig:
  - Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cael gwahoddiad i gynnal adolygiad o'r defnydd o amddiffynfeydd mewn achosion o laddiad domestig. Erbyn hyn cytunwyd ar Gylch Gorchwyl yr adolygiad hwn a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.
  - Mae'r Swyddfa Gartref wedi lansio Llyfrgell Lladdiadau Domestig newydd, a fydd yn galluogi mwy o ddadansoddi ar batrymau, tueddiadau a ffactorau risg.
  - Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i weithio gyda phartneriaid ac yn gwella hyfforddiant gorfodol ar ddeall ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol.

Yn yr ymateb llawn, ymrwymodd yr Arglwydd Ganghellor hefyd i ysgrifennu at Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr, gan gynnig ei fod yn diwygio ei ganllawiau yng ngoleuni'r Adolygiad ac ymateb y Llywodraeth i'w argymhellion. Cafodd hyn ei gyflawni ac mae'r Cyngor Dedfrydu wedi cyhoeddi ei ymateb ei hun i'r argymhellion sy'n ymwneud â chanllawiau dedfrydu yn yr Adolygiad.[4] Yn yr ymateb hwn, fe wnaethon nhw gyhoeddi eu bod yn ymgynghori ar y canlynol:

- Ychwanegu ffactor gwaethygol at y pedwar canllaw lladdiad sy'n ymwneud â defnyddio tagu neu fygu.
- Diwygio'r ffactorau gwaethygol a lliniarol ym mhob un o'r pedwar canllaw lladdiad i gynnwys cyfeiriad penodol at ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol.

[4] Y Cyngor Dedfrydu yn ymateb i'r Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig – Dedfrydu

## Mynd ymhellach – yr ymgynghoriad hwn

Rydym yn cydnabod bod materion a fyddai'n elwa o gael eu hystyried ymhellach, y tu hwnt i'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad a ymgymerwyd gan Clare Wade KC. Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo i lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer diwygio yn y maes hwn wedi cael eu hystyried yn llawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd ac yn gofyn am farn ar fan cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer (i) achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, a (ii) pob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall.

Byddwn yn ystyried eich barn a'ch adborth yn ofalus. Bydd y safbwyntiau a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn yn helpu i hysbysu a oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach i'r fframwaith dedfrydu, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i ymrwymo iddo mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig.

# Y Fframwaith Dedfrydu

## Llofruddiaeth

**Dedfryd oes orfodol**
Bydd unrhyw un a geir yn euog o lofruddiaeth yn derbyn dedfryd oes orfodol.

Ochr yn ochr â'r ddedfryd oes hon, mae'n ofynnol i'r barnwr dedfrydu ystyried a ddylid rhoi gorchymyn oes gyfan neu orchymyn cyfnod byrraf. Dim ond ar sail dosturiol eithriadol y mae troseddwyr sy'n cael gorchymyn oes gyfan yn gymwys i gael eu rhyddhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o garcharorion gorchymyn oes gyfan yn treulio gweddill eu hoes yn y carchar.

Mae gorchmynion cyfnod byrraf ar y llaw arall yn nodi cyfnod byrraf y ddedfryd am oes y bydd y troseddwr yn gorfod ei dreulio yn y carchar cyn i'r Bwrdd Parôl ystyried, am y tro cyntaf, a ellir rhyddhau'r troseddwr yn ddiogel i dreulio gweddill ei ddedfryd oes ar drwydded yn y gymuned. Os caiff troseddwr ei ryddhau, bydd yn aros ar drwydded am weddill ei fywyd a gellir ei alw'n ôl i'r carchar ar unrhyw adeg. Efallai y bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu nad yw byth yn ddiogel i'r troseddwr gael ei ryddhau ac, os felly, bydd y troseddwr yn treulio ei ddedfryd oes gyfan yn y carchar.

**Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020**
Mae Atodlen 21 i Ddeddf Dedfrydu 2020 (Atodlen 21 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 gynt) yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r llys eu hystyried wrth asesu difrifoldeb pob achos o lofruddiaeth, er mwyn penderfynu rhoi gorchymyn oes gyfan ai peidio, neu os rhoddir gorchymyn cyfnod byrraf, ar y cyfnod byrraf priodol i'w bennu.

Nid yw Atodlen 21 yn nodi'r holl senarios posibl. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf priodol ar sail amgylchiadau penodol pob achos. Mae'n ofynnol i farnwyr roi sylw i'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn Atodlen 21.

**Canllawiau Dedfrydu**
Mae Cyngor Dedfrydu annibynnol Cymru a Lloegr yn cynhyrchu canllawiau ar ddedfrydu. Nid oes canllawiau trosedd-benodol ar gyfer llofruddiaeth, ond rhaid i'r llys ddilyn unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol oni bai fod gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder. Mae'r canllawiau sy'n berthnasol i lofruddiaeth yn cynnwys y Canllaw Cyffredinol: Egwyddorion Cyffredinol, yr Egwyddorion Cyffredinol: Canllaw Cam-drin Domestig, a Chanllaw Dedfrydu Plant a Phobl Ifanc.

**Mannau Cychwyn yn Atodlen 21**
Mae Atodlen 21 yn cynnwys ystod o fannau cychwyn ar gyfer penderfynu ar y cyfnod byrraf. Ar gyfer pob man cychwyn, mae Atodlen 21 yn pennu categorïau o achosion a fydd fel arfer yn dod o danynt a bydd amgylchiadau penodol llofruddiaeth yn pennu pa rai o'r mannau cychwyn hyn sy'n gymwys.

Mae man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd yn berthnasol i bob achos o lofruddiaeth a gyflawnir gan droseddwyr 18 oed neu hŷn.

Mae man cychwyn 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau sy’n ymwneud â defnyddio arf sydd wedi cael ei gludo i’r safle gyda bwriad, a sefydlwyd i gydnabod difrifoldeb meddiant anghyfreithlon a defnyddio cyllyll yn gyhoeddus.

Y mannau cychwyn uchaf yw 30 mlynedd a Gorchymyn Oes Gyfan. Mae’r rhain yn cydnabod difrifoldeb eithriadol ac arbennig o uchel rhai llofruddiaethau, megis y rheini sy’n ymwneud â llofruddio dau neu fwy o bobl neu herwgydio a llofruddio plentyn.

Mae troseddwyr sydd o dan 18 oed pan fyddant yn cyflawni trosedd yn wynebu graddfa symudol o fannau cychwyn sy’n amrywio o 8 i 27 o flynyddoedd, yn dibynnu ar oed y troseddwr pan gyflawnwyd y trosedd a difrifoldeb y trosedd.

**Ffactorau Lliniarol a Gwaethygol yn Atodlen 21**
Ar ôl nodi’r man cychwyn, gall y cyfnod byrraf a roddir amrywio’n sylweddol tuag i fyny neu i lawr o’r man cychwyn cychwynnol, yn dibynnu ar y ffactorau gwaethygol a lliniarol. Mater i’r barnwr dedfrydu yw penderfynu ar y pwysau priodol i’w roi ar y ffactorau gwaethygol a lliniarol, ar sail amgylchiadau penodol pob achos.

Mae Atodlen 21 yn cynnwys ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol a allai fod yn berthnasol i’r trosedd o lofruddiaeth. Nid yw’r ffactorau statudol hyn yn hollgynhwysfawr, ac mae’r barnwr sy’n dedfrydu yn gallu ystyried unrhyw ffactorau perthnasol o ran gwaethygu a lliniaru.

Nid oes terfyn uchaf nac isaf ar y cyfnod byrraf terfynol sydd i’w osod. Ar ôl ystyried holl amgylchiadau’r achos a’r ffactorau gwaethygol a lliniarol perthnasol, gall y barnwr bennu cyfnod byrraf o unrhyw hyd, beth bynnag yw’r man cychwyn.

## Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol

**Trosedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol**
Gwnaeth y Llywodraeth hon ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn drosedd yn Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015. Gall yr ymddygiad hwn gynnwys cam-drin economaidd, emosiynol neu seicolegol, cam-drin domestig a hwylusir gan dechnoleg, yn

ogystal â bygythiadau, p'un a yw trais neu gam-drin corfforol a rhywiol yn cyd-fynd â hwy ai peidio.

Nid yw ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ymwneud ag un digwyddiad yn unig. Mae'n batrwm pwrpasol o ymddygiad sy'n digwydd dros amser ac sy'n ynysu'r dioddefwr oddi wrth gefnogaeth, yn eu hecsbloetio, yn eu hamddifadu o annibyniaeth ac yn rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Yn 2018, cyflwynodd Cyngor Dedfrydu annibynnol Cymru a Lloegr ganllaw dedfrydu ar gyfer trosedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddwyd 'Egwyddorion Cyffredinol: Canllaw Cam-drin Domestig' sy'n cydnabod yn benodol bod cyd-destun domestig ymddygiad troseddol yn cynrychioli torri ymddiriedaeth a diogelwch ac felly'n gwneud yr ymddygiad troseddol yn fwy difrifol. Mae ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol wedi'i gynnwys yn y diffiniad o gam-drin domestig yn y canllaw. Rhaid i'r llys ddilyn unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol oni bai fod gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

Mae pob achos o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ddifrifol. Fodd bynnag, gall difrifoldeb cymharol pob achos amrywio'n sylweddol o ran beiusrwydd y cyflawnwr a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr. Mae'r canllaw ar gyfer y trosedd yn darparu fframwaith ar gyfer asesu beiusrwydd a niwed, er mwyn penderfynu ar gategori'r trosedd at ddibenion dedfrydu. Mae'r canllaw wedyn yn darparu man cychwyn ac ystod categorïau, yn dibynnu ar gategori'r trosedd. Ar gyfer y categori troseddau isaf, y man cychwyn yw gorchymyn cymunedol lefel ganolig, ac ar gyfer y categori troseddau uchaf, y man cychwyn yw 2 flynedd a 6 mis o garchar. Y gosb uchaf yw 5 mlynedd o garchar.

**Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a llofruddiaeth**

Er bydd yr 'Egwyddorion Cyffredinol: Canllaw Cam-drin Domestig' yn ystyriaeth berthnasol ym mhob llofruddiaeth ddomestig, ar hyn o bryd nid oes gan Atodlen 21 fannau cychwyn na ffactorau gwaethygol neu liniarol statudol sy'n cydnabod difrifoldeb llofruddiaethau a gyflawnir yng nghyd-destun ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth[5] i newid hyn.

Mewn achosion lle mae partner neu aelod o'r teulu sy'n cam-drin wedi lladd eu dioddefwr, bydd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y cyflawnwr yn erbyn y dioddefwr yn ffactor gwaethygol statudol i lofruddiaeth. Mewn achosion lle mae dioddefwr camdriniaeth wedi lladd eu camdriniwr, bydd hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol gan y dioddefwr yn erbyn y cyflawnydd yn ffactor lliniarol statudol i lofruddiaeth.

[5] Rheoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygiad i Atodlen 21) 2023 a gyflwynwyd yn y Senedd ar 23 Hydref 2023

# Defnyddio arf

### Canllawiau Dedfrydu

Mae'r 'Canllaw Cyffredinol: Egwyddorion Cyffredinol' yn cynnwys defnyddio arf fel ffactor gwaethygol, sy'n berthnasol i bob trosedd lle defnyddiwyd arf mewn unrhyw gyd-destun.

Mae'r Canllaw yn datgan mai mater i'r llys dedfrydu yw penderfynu faint o bwysau y dylid ei roi ar y ffactorau gwaethygol a lliniarol, gan ystyried holl amgylchiadau'r trosedd a'r troseddwr. Mae'r Canllaw yn glir na fydd pob ffactor sy'n berthnasol o reidrwydd yn dylanwadu ar y ddedfryd, ac y dylid bod yn ofalus i osgoi ffactorau sy'n cyfrif ddwywaith, gan gynnwys y rheini sydd eisoes yn cael eu hystyried wrth asesu beiusrwydd neu niwed neu'r ffactorau hynny sy'n rhan annatod o'r trosedd.

Mae'r Canllaw yn cynnwys y canllawiau canlynol i'r llys wrth benderfynu a ddylai defnyddio arf arwain at unrhyw addasiad o ran cynyddu'r ddedfryd ac, os felly, y pwysau y dylid ei neilltuo iddo:

- Gall 'arf' fod ar sawl ffurf
- *Mae defnyddio neu gynhyrchu arf yn berthnasol*
  - i feiusrwydd y troseddwr lle mae'n dangos cynllunio neu fwriad i achosi niwed; ac
  - i'r niwed a achoswyd (corfforol neu seicolegol) neu'r posibilrwydd o niwed.
- Bydd ystyriaethau perthnasol yn cynnwys:
  - pa mor beryglus yw'r arf;
  - a ddaeth y troseddwr â'r arf i'r fan, neu a oedd wedi defnyddio'r hyn oedd ar gael yn fyrbwyll;
  - a yw'r troseddwr wedi gwneud neu wedi addasu rhywbeth i'w ddefnyddio fel arf;
  - y cyd-destun y cafodd yr arf ei fygwth, ei ddefnyddio neu ei gynhyrchu ynddo.
- Wrth ddedfrydu troseddwyr ifanc (18-25 oed fel arfer), dylid hefyd ystyried y canllawiau ar y ffactor lliniarol sy'n ymwneud ag oedran a/neu ddiffyg aeddfedrwydd wrth asesu perthnasedd y ffactor hwn i feiusrwydd.

### Defnyddio arf a llofruddiaeth

Yn gyffredinol, mae Atodlen 21 yn diffinio'r difrifoldeb y dylid ei ddefnyddio i ystyried llofruddiaeth wrth ddedfrydu yn ôl amgylchiadau'r lladd, yn hytrach na'r modd yr achoswyd y farwolaeth.

Mae dau eithriad i hyn, lle mae difrifoldeb yn Atodlen 21 yn cael ei briodoli yn ôl y dull lladd. Mae'r man cychwyn 30 mlynedd yn berthnasol i lofruddiaethau sy'n ymwneud â defnyddio arf tanio neu ffrwydron, ac mae'r man cychwyn 25 mlynedd yn berthnasol i lofruddiaethau lle cafodd arf ei gludo i'r lleoliad gyda bwriad.

Ychwanegwyd y man cychwyn 25 mlynedd at Atodlen 21 yn 2010, yn dilyn llofruddiaeth Ben Kinsella, a gafodd ei drywanu yn y stryd gan gang yn yr hyn y credid ei fod yn achos o gamadnabod. Ysgogwyd y newid gan bryder y dylai'r man cychwyn ar gyfer y math hwn o

lofruddiaeth fod yn uwch na'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, yn enwedig gan mai 30 mlynedd yw'r man cychwyn ar gyfer llofruddiaeth drwy ddefnyddio arf tanio. Ystyriwyd bod angen adlewyrchu'r risg i'r cyhoedd o gario cyllyll ar y strydoedd, gyda'r bwriad o'u defnyddio i achosi niwed, yn y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

Byddai'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd fel arfer yn berthnasol i bob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf, neu drwy unrhyw ddull lladd arall (oni bai bod amgylchiadau'r lladd yn golygu bod y man cychwyn 30 mlynedd neu Orchymyn Oes Gyfan yn berthnasol).

Nid oes unrhyw ffactorau gwaethygol statudol i lofruddio sy'n gysylltiedig â defnyddio arf, ond mae 'Canllaw Cyffredinol: Egwyddorion Cyffredinol' y Cyngor Dedfrydu yn cynnwys defnyddio arf fel ffactor gwaethygol, sy'n berthnasol i bob trosedd lle defnyddiwyd arf mewn unrhyw gyd-destun. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn amlwg mewn cyfraith achosion. Er enghraifft, yn *R v M, AM, Kika* (2010), dywedodd y Llys Apêl y bydd defnyddio arf bob amser yn ffactor gwaethygol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

# Rhaglen Ehangach o Ddiwygio

## Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched

Mae atal trais yn erbyn menywod a merched yn dal yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ac mae'r newidiadau a gynigir yn ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiadau Domestig yn eistedd yng nghyd-destun gwaith sylweddol ac ehangach ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

Mae hyn yn cynnwys creu'r drosedd o ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol mewn perthnasoedd agos neu deuluol yn Adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, a chyflwyno Deddf Cam-drin Domestig 2021 sy'n helpu i sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ddeall yn iawn, yn cael ei ystyried yn annerbyniol ac yn cael ei herio'n weithredol ar draws asiantaethau statudol ac mewn agweddau cyhoeddus. Yn ogystal, cyflwynodd y Ddeddf Cam-drin Domestig drosedd newydd, sef crogi heb fod yn angheuol.

Yn 2021, cyhoeddodd y Llywodraeth ddwy brif strategaeth hefyd. Yn gyntaf, roedd Cynllun Gweithredu'r Adolygiad Treisio yn ymrwymo i fwy na dyblu nifer yr achosion o dreisio oedolion sy'n cyrraedd y llys erbyn diwedd y Senedd hon, ac i wella'r cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr. Yn ail, y strategaeth ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, sy'n helpu i sicrhau bod menywod a merched yn ddiogel ym mhobman – gartref, ar-lein, yn y gwaith ac ar y strydoedd. Dilynwyd y rhain ym mis Mawrth 2022 gan y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig ategol sy'n cynnwys ymrwymiadau allweddol i sbarduno rhagor o newid mewn ymateb i gam-drin domestig.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni trawslywodraethol trawsnewidiol hyn yn nodi'r rhaglen o ddiwygiadau y mae'r Llywodraeth hon yn eu gwthio ymlaen i atal camdriniaeth, cefnogi dioddefwyr, mynd ar drywydd drwgweithredwyr, a chryfhau ymateb y system i drais yn erbyn menywod a merched.

## Atal Lladdiadau Domestig

Y llynedd, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei Chynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig a gyflwynodd ymrwymiadau allweddol i leihau lladdiadau domestig, gan gynnwys diwygio'r broses Adolygu Lladdiadau Domestig, cyflwyno cynllun peilot plismona cam-drin domestig ac atal lladdiadau domestig, buddsoddi'n sylweddol mewn lleoliadau gofal iechyd i wella gallu asiantaethau i nodi a chyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth, a pharhau i fuddsoddi mewn gwaith ymchwil i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar atal lladdiadau domestig.

Er bod y Llywodraeth wedi ymrwymo i'r egwyddorion sylfaenol sy'n tanategu'r broses Adolygu Lladdiadau Domestig, rydym hefyd wedi cydnabod bod lle i wella yn y ffordd y caiff y rhain eu cynnal, a sut mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu defnyddio. Bydd diwygiadau newydd i'r broses hon yn cynnwys adnewyddu canllawiau statudol y broses Adolygu Lladdiadau Domestig, cyflwyno rôl ffurfiol i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, darparu pecyn hyfforddi mwy pwrpasol i Gadeiryddion Adolygu Lladdiadau Domestig a gweithio gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i archwilio'r posibilrwydd o greu rôl ffurfiol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn y broses.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar Gynllun Peilot Plismona Cam-drin Domestig ac Atal Lladdiadau Domestig newydd a fydd yn nodi heddluoedd sydd â lefelau cymharol uchel o laddiadau domestig a digwyddiadau cam-drin domestig difrifol. Bydd yr heddluoedd hyn yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i atal camdrinwyr domestig rhag achosi niwed.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i fuddsoddi hyd at £7.5 miliwn dros dair blynedd ar gyfer ymyriadau mewn lleoliadau gofal iechyd. Bydd hyn yn helpu i hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn gallu nodi ac atgyfeirio dioddefwyr a goroeswyr at wasanaethau cymorth yn effeithiol.

Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar laddiadau domestig drwy'r Prosiect Datblygu Ymarfer a Dealltwriaeth o Fregusrwydd – Lladdiadau Domestig, sy'n cael ei redeg gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona. Mae'r prosiect yn cyfrif yr holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig sydd, yn ogystal â llofruddiaethau domestig gan bartner (presennol neu gyn), aelod o'r teulu neu gyd-breswylydd, hefyd yn cynnwys marwolaethau plant mewn lleoliadau domestig, marwolaethau amheus neu anesboniadwy, ac achosion posibl o hunanladdiad gan unigolion lle mae'r heddlu'n ymwybodol o hanes hysbys o erledigaeth ddomestig. Bellach yn ei drydedd flwyddyn, mae'r Swyddfa Gartref wedi parhau i ddarparu rhagor o gyllid i'r prosiect i adeiladu ar y canfyddiadau cychwynnol a'r gwersi a ddysgwyd o'r marwolaethau hyn i gynorthwyo'r heddlu yn eu hymateb i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac i atal rhagor o farwolaethau.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn parhau i ddarparu cyllid i gefnogi'r ddarpariaeth o ymyriadau ar gyfer drwgweithredwyr cam-drin domestig. Mae wedi buddsoddi £25m dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bydd yn parhau i ddarparu cymorth dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Mae hefyd yn dylunio cynlluniau peilot ar gyfer Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig, gan gynnwys monitro troseddwyr cam-drin domestig risg uchel yn electronig, ac mae newydd lansio'r llyfrgell ganolog gyntaf ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig.

## Dedfrydu a Pharôl

Roedd Maniffesto'r Llywodraeth yn 2019 yn ymrwymo i gyflwyno dedfrydu llymach ar gyfer y troseddwyr gwaethaf a'r newidiadau rydym yn ymgynghori arnynt yn y papur hwn, gan adeiladu ar y camau sydd eisoes wedi cael eu cymryd i gyflawni hyn.

Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth newidiadau i sicrhau bod yn rhaid i dreiswyr a gafwyd yn euog (a'r rhai a gafwyd yn euog o'r troseddau rhywiol mwyaf difrifol) dreulio 100% o'u dedfryd yn y carchar. Mae trais rhywiol yn drosedd ffiaidd a difrifol sy'n cael effaith hynod bersonol a thrawmatig ar ddioddefwyr, ac mae'n bwysig bod y system gyfiawnder yn mynd i'r afael â'r troseddu hwn ac yn ei gosbi'n briodol. Mae'r newid hwn yn adeiladu ar gyhoeddiadau diweddar eraill sy'n ymwneud â gorchmynion oes gyfan. Rydym wedi cyhoeddi newidiadau i sicrhau bod yn rhaid i'r llysoedd osod gorchymyn oes gyfan mewn amgylchiadau sydd ar hyn o bryd yn sbarduno'r gorchymyn oes gyfan fel man cychwyn dedfrydu, oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Bydd llofruddiaeth un dioddefwr sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol neu sadistaidd hefyd yn cael ei ychwanegu at y categorïau o lofruddiaeth y mae'n rhaid rhoi gorchymyn oes gyfan ar eu cyfer (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol). Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y rheini sy'n cyflawni'r troseddau gwaethaf un yn cael y gosb fwyaf difrifol sydd ar gael, a byddant yn cael eu cyflwyno pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny.

Cyflwynodd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 newidiadau i sicrhau bod y troseddwyr mwyaf difrifol a pheryglus yn treulio mwy o amser yn y carchar, gan fwrw dedfrydau sy'n adlewyrchiad gwirioneddol o ddifrifoldeb eu troseddau. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys diddymu rhyddhau carcharorion yn awtomatig hanner ffordd trwy eu dedfrydau ar gyfer rhai troseddwyr rhyw a threisgar difrifol, gan fynnu eu bod yn bwrw dwy ran o dair o'u dedfrydau yn y carchar yn lle. Rydym hefyd wedi newid y ffordd y mae dedfrydau oes yn ôl disgresiwn yn cael eu cyfrifo, er mwyn sicrhau tariffau hirach yn yr achosion hyn.

Fe wnaethom gyflwyno pŵer newydd i atal troseddwyr sy'n dod yn destun pryder sylweddol o ran diogelu'r cyhoedd pan fyddant yn y carchar rhag cael eu rhyddhau'n awtomatig. Gwnaethom Orchymyn Oes Gyfan (carchar am oes heb ryddhau gan y Bwrdd Parôl) yn fan cychwyn ar gyfer llofruddiaeth ragfwriadus plentyn, ac mae gan farnwyr bellach hefyd y disgresiwn i osod y ddedfryd hon ar droseddwyr 18 i 20 oed mewn achosion eithriadol iawn.

Yn Neddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd , gwnaethom hefyd weithredu mewn ymateb i achos trasig Ellie Gould, a lofruddiwyd gan ei chyn-gariad 17 oed. Mae fframwaith dedfrydu gwahanol yn berthnasol i blant ac o fewn hyn fe wnaethom godi'r mannau cychwyn ar gyfer llofruddiaeth a gyflawnir gan blant hŷn er mwyn sicrhau bod dedfrydau yn yr achosion hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y trosedd ac oedran y drwgweithredwr yn well.

Gan adeiladu ar hyn, mae’r Bil Dioddefwyr a Charcharorion, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, yn cynnwys diwygiadau parôl newydd sylweddol i amddiffyn y cyhoedd a chynyddu hyder yn y system. Mae hyn yn cynnwys rhoi’r pŵer i’r Ysgrifennydd Cyfiawnder ymyrryd ar ryddhau’r troseddwyr mwyaf difrifol, fel llofruddwyr neu dreiswyr, i sicrhau bod ail wiriad yn cael ei gynnal ynghylch a yw’r carcharor yn ddiogel i’w ryddhau.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno mesurau a fydd yn caniatáu i ddioddefwyr arsylwi gwrandawiadau parôl, fel rhan o’n gwaith i wella tryloywder a natur agored y system parôl yng Nghymru a Lloegr. Ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu proses i ganiatáu i ddioddefwyr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i’r Bwrdd Parôl, yn ogystal â’u Datganiad Personol Dioddefwr. Bydd y newid hwn yn cael ei ymgorffori yn y Cod Dioddefwyr.

Mae’r newidiadau hyn yn dangos bod y Llywodraeth hon o ddifri ynghylch cadw troseddwyr peryglus oddi ar y strydoedd am gyfnod hwy a sicrhau bod y gosb yn briodol i’r drosedd. Rydym wedi ymrwymo i amddiffyn y cyhoedd a chael system sy’n sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, eu teuluoedd a’r cyhoedd yn gyffredinol.

# Adran 1 - Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth

Y prif gwestiwn a ystyrir yn yr adran hon yw:

**C1.1: A ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth ai peidio?**

Yna, mae dau gwestiwn eilaidd. Mae'r cwestiynau hyn yn tybio bod man cychwyn yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, ac mae'n ystyried manylion polisi o'r fath.

Y cwestiynau eilaidd yw:

**Petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth...**

**C1.2: Beth ddylai'r man cychwyn fod?**

**C1.3: A ddylai hyn fod yn berthnasol i bob achos lle'r oedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, neu ddim ond i'r achosion hynny lle'r oedd yr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol ar lefel uchel o ran difrifoldeb?**

**Cyd-destun Perthnasol**

*Adran 21 ac ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol*

Anaml iawn y mae achosion o lofruddiaeth domestig yn ddigwyddiadau ynysig, ac maent yn aml yn benllanw blynyddoedd o gam-drin. Ar hyn o bryd, nid yw difrifoldeb llofruddiaethau domestig a'r niwed penodol sy'n codi yn yr achosion hyn yn cael eu cydnabod yn Atodlen 21, naill ai yn y ffactorau gwaethygol statudol neu yn un o'r mannau

cychwyn uwch. Mae hyn yn golygu bod llofruddiaethau domestig yn dod o fewn man cychwyn sylfaenol 15 mlynedd gan amlaf.

Ystyriwyd y mater hwn yn yr Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig annibynnol. Mewn ymateb, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth[6] i roi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith dedfrydu. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ffactor gwaethygol statudol i lofruddiaeth. Bydd hefyd yn gwneud 'gor-laddiad' yn ffactor gwaethygol statudol i lofruddiaeth, sy'n amlwg yn gyffredin mewn achosion o lofruddiaeth ddomestig, yn enwedig mewn achosion sydd hefyd yn cynnwys ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol. Bydd deddfwriaeth hefyd yn cael ei chyflwyno pan fydd amser seneddol yn caniatáu, i wneud lladd sy'n gysylltiedig â diwedd perthynas yn ffactor gwaethygol statudol i lofruddio, gan gydnabod mai dyma weithred reolaethol derfynol partner sy'n cam-drin.

Er mai mater i'r barnwr yw penderfynu ar y pwysau priodol i'w roi i'r ffactorau gwaethygol ym mhob achos, rydym yn disgwyl, gyda'i gilydd, y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyfnodau byrraf a roddir i'r cyflawnwyr yn yr achosion hyn.

*Ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol*
Mae pob achos o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ddifrifol. Fodd bynnag, gall difrifoldeb cymharol yr ymddygiad ym mhob achos amrywio'n sylweddol o ran beiusrwydd y cyflawnwr a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr. Mae dedfrydu mewn achosion unigol yn fater i'n llysoedd annibynnol. Wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi, rhaid i lysoedd ystyried beiusrwydd y troseddwr, y niwed a achoswyd neu y bwriedir ei achosi, ac unrhyw ffactorau gwaethygol a lliniarol. Mae gan y llysoedd hefyd ddyletswydd statudol i ddilyn unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol.

Mae'r canllaw ar gyfer y trosedd yn asesu difrifoldeb yr ymddygiad yn ôl lefel y beiusrwydd a ddangoswyd a lefel y niwed a achoswyd, ac yn neilltuo man cychwyn dedfrydu yn unol â hynny. Y man cychwyn ar gyfer trosedd lefel isaf yw gorchymyn cymunedol lefel ganolig, ac ar gyfer trosedd lefel uchaf mae'n 2 flynedd a 6 mis o garchar. Y gosb uchaf am y trosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yw 5 mlynedd o garchar. Enghreifftiau o achosion o feiusrwydd uchel yw'r rhai sy'n cynnwys gweithredu parhaus dros gyfnod hir o amser, neu ddulliau lluosog a soffistigedig. Enghreifftiau o achosion o feiusrwydd isel yw'r rheini sy'n gyfyngedig o ran cwmpas a hyd, neu'r rheini lle mae gan y cyflawnydd anhwylder meddwl neu anabledd dysgu.

*Man cychwyn sy'n disodli, neu yn ychwanegol at, ffactor gwaethygol statudol*
Mae'r rhyngweithio rhwng y ffactor gwaethygol statudol newydd ar gyfer ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol sydd wedi cael ei gyflwyno, a man cychwyn newydd ar gyfer yr un ymddygiad, yn dibynnu ar y manylion polisi sy'n cael eu hystyried yng Nghwestiwn

[6] Rheoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygiad i Atodlen 21) 2023 a gyflwynwyd yn y Senedd ar 23 Hydref 2023

1.3. Pe bai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, yna byddai hyn yn disodli'r ffactor gwaethygol statudol. Pe bai'r man cychwyn ond yn berthnasol i'r achosion hynny lle'r oedd yr ymddygiad rheolaethol neu waethygol ar lefel uchel o ran difrifoldeb, yna gallai hyn fod yn ychwanegol at y ffactor gwaethygol statudol a allai gwmpasu achosion lle nad oedd ymddygiad o'r fath yn cyrraedd y trothwy hwnnw.

## Cwestiwn 1.1

Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried a ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth ai peidio.

Mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth[7] ar gyfer ffactor gwaethygol statudol ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu waethygol yn erbyn y dioddefwr. Er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer diwygio wedi cael eu hystyried, rydym yn gofyn am farn ar fan cychwyn, sy'n uwch na'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, ar gyfer achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad o'r fath.

Mewn llawer o achosion, mae'n debygol y byddai man cychwyn uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd yn arwain at osod cyfnod byrraf uwch na defnyddio ffactor gwaethygol statudol, ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenir gan hanes o ymddygiad rheaolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth.

Fodd bynnag, efallai na fydd yn caniatáu hyblygrwydd o ran addasu'r cyfnod byrraf terfynol a roddir ar sail difrifoldeb cymharol yr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, yn y ffordd y bydd y ffactor gwaethygol statudol yn gwneud. Rydym yn disgwyl y bydd ystyried y ffactor gwaethygol statudol newydd ar gyfer rheoli neu orfodi yn arwain at lefelau amrywiol o gynnydd o'r man cychwyn perthnasol, gyda lefel y cynnydd yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr ymddygiad mewn achos penodol.

## Cwestiwn 1.2

Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried, petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, beth ddylai'r man cychwyn fod.

[7] Rheoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygiad i Atodlen 21) 2023 a gyflwynwyd yn y Senedd ar 23 Hydref 2023

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer llofruddiaethau sy’n cynnwys defnyddio arf sydd wedi cael ei gludo i’r safle gyda bwriad y mae’r man cychwyn 25 mlynedd yn berthnasol. Comisiynwyd yr Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig yn rhannol mewn ymateb i bryderon penodol, er y gallai amgylchiadau penodol a niwed ehangach llofruddiaethau domestig fod yn wahanol i achosion fel y rhain, nid ydynt yn llai difrifol, ac felly teimlwyd y dylai’r un man cychwyn fod yn berthnasol i fwy o achosion o lofruddiaethau domestig. Felly, gallai man cychwyn o 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenir gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth gyflawni hyn.

Fel arall, mae man cychwyn o rywle rhwng 15 a 25 mlynedd yn opsiwn arall. Mae man cychwyn 25 mlynedd yn 10 mlynedd yn uwch na’r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd. Efallai na fydd y lefel hon o gynnydd yn y man cychwyn yn gymesur ym mhob achos o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, o ystyried yr amrywiaeth o ymddygiad y gall ymddygiad o’r fath ei gynnwys. Byddai man cychwyn 25 mlynedd yn yr achosion hyn hefyd yn golygu gwahaniaeth o 10 mlynedd yn y man cychwyn hwn o’i gymharu â’r un ar gyfer achosion eraill o lofruddiaeth ddomestig nad ydynt yn cael eu rhagflaenu gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn y dioddefwr, y byddai’r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd yn dal yn berthnasol iddo fel arfer. Gall y gwahaniaeth hwn fod yn briodol mewn rhai achosion, ond mewn achosion eraill gall fod amgylchiadau eraill ynghylch y llofruddiaeth y gellid eu hystyried ar yr un lefel o ddifrifoldeb.

Os yw man cychwyn yn berthnasol i lofruddiaethau a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, gallai felly fod yn fwy cymesur i'r man cychwyn hwn fod yn rhywle rhwng man cychwyn sylfaenol 15 mlynedd a'r man cychwyn 25 mlynedd. Yn achos dadansoddiad ffeil o laddiadau domestig partner agos a gynhaliwyd ar gyfer yr Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig[8], hyd cyfartalog y cyfnod byrraf ar gyfer y llofruddiaethau a oedd â man cychwyn 15 mlynedd oedd 18.7 mlynedd, o ganlyniad i gymhwyso ffactorau gwaethygol. Felly, pe bai man cychwyn yn rhywle rhwng 15 mlynedd a 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenir gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, mewn rhai achosion, efallai y byddai defnyddio ffactorau gwaethygol eraill, fel gor-ladd, yn dal i olygu y byddai’r cyfnod byrraf terfynol a osodwyd yn oddeutu 25 mlynedd.

## Cwestiwn 1.3

Mae’r cwestiwn hwn yn ystyried a ddylai man cychwyn ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth fod yn berthnasol i’r achosion hynny lle’r oedd ymddygiad o’r fath yn ddifrifol iawn.

[8] Gweler yr Asesiad Effaith cysylltiedig ar gyfer yr ymgynghoriad hwn; ac Atodiad D, Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig (publishing.service.gov.uk)

Mae pob achos o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ddifrifol. Fodd bynnag, gall difrifoldeb cymharol yr ymddygiad ym mhob achos amrywio'n sylweddol o ran beiusrwydd y cyflawnwr a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr.

Felly, efallai na fydd yn gymesur i fan cychwyn fod yn berthnasol i bob llofruddiaeth a ragflaenir gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, o ystyried yr amrywiaeth o ymddygiadau y gall ymddygiad o'r fath ei gynnwys. Gall fod yn fwy cymesur iddo fod yn berthnasol i'r achosion hynny lle'r oedd yr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol ar lefel uchel o ran difrifoldeb yn unig.

Mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth[9] ar gyfer ffactor gwaethygol statudol ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu waethygol yn erbyn y dioddefwr. Pe bai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, yna byddai hyn yn disodli'r ffactor gwaethygol statudol. Pe bai'r man cychwyn ond yn berthnasol i'r achosion hynny lle'r oedd yr ymddygiad rheolaethol neu waethygol ar lefel uchel o ran difrifoldeb, yna gallai hyn fod yn ychwanegol at y ffactor gwaethygol statudol a allai gwmpasu achosion lle nad oedd ymddygiad o'r fath yn cyrraedd y trothwy hwnnw.

**C1.1: A ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth ai peidio?**

**C1.2: Petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, beth ddylai'r man cychwyn fod?**

**C1.3: Pe bai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, a ddylai hyn fod yn berthnasol i bob achos lle'r oedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol neu ddim ond i'r achosion hynny lle'r oedd yr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol ar lefel uchel o ran difrifoldeb?**

[9] Rheoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygiad i Atodlen 21) 2023 a gyflwynwyd yn y Senedd ar 23 Hydref 2023

# Adran 2: Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall

Y prif gwestiwn a ystyrir yn yr adran hon yw:

**C2.1: A ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arfa arall ai peidio?**

Yna, mae dau gwestiwn eilaidd. Mae'r cwestiynau hyn yn tybio bod man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall, ac mae'n ystyried manylion polisi o'r fath.

Y cwestiynau eilaidd yw:

**Petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall...**

**C2.2: Beth ddylai'r man cychwyn fod?**

**C2.3: A ddylid datgymhwyso hyn mewn achosion lle mae dioddefwr camdriniaeth wedi lladd y sawl sy'n ei gam-drin ai peidio?**

**Cyd-destun Perthnasol**

*Atodlen 21 a'r dull lladd*

Ar hyn o bryd, mae Atodlen 21 yn cyfeirio'n gyffredinol at yr amgylchiadau pan ddigwyddodd y lladdiad, ac nid at y modd yr achoswyd y farwolaeth. Mae'r mannau cychwyn a'r ffactorau gwaethygol statudol yn Atodlen 21 yn ymwneud naill ai ag angen penodol i gydnabod bregusrwydd y dioddefwr (e.e. Swyddog yr heddlu, swyddog carchar, plentyn, neu'r rhai a laddwyd oherwydd hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu anabledd), neu'r pwrpas y cyflawnwyd y llofruddiaeth ar ei gyfer (e.e. gwleidyddol, er budd personol, i rwystro neu ymyrryd â chwrs cyfiawnder, neu ymddygiad rhywiol neu sadistaidd).

Mae dau eithriad i hyn, lle mae gan Atodlen 21 fannau cychwyn ar gyfer dulliau lladd penodol. Mae'r man cychwyn 30 mlynedd yn berthnasol i lofruddiaethau sy'n ymwneud â

defnyddio arf tanio neu ffrwydron, ac mae'r man cychwyn 25 mlynedd yn berthnasol i lofruddiaethau lle cafodd arf ei gludo i'r lleoliad gyda bwriad.

*Y man cychwyn 25 mlynedd*

Dim ond i lofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall a gludwyd i'r lleoliad gyda bwriad y mae'r man cychwyn 25 mlynedd presennol yn berthnasol. Ychwanegwyd y man cychwyn hwn at Atodlen 21 yn 2010, yn dilyn llofruddiaeth Ben Kinsella, a gafodd ei drywanu yn y stryd gan gang yn yr hyn y credid ei fod yn achos o gamadnabod. Ysgogwyd y newid gan bryder y dylai'r man cychwyn ar gyfer llofruddiaethau a oedd yn cynnwys cario cyllyll yn gyhoeddus yn fwriadol fod yn uwch na'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, yn enwedig gan mai'r man cychwyn ar gyfer llofruddiaeth gan ddefnyddio arf tanio yw 30 mlynedd. Ystyriwyd bod angen adlewyrchu'r risg i'r cyhoedd o gario cyllyll ar y strydoedd, gyda'r bwriad o'u defnyddio i achosi niwed, yn y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

*Defnyddio ffactor gwaethygol arf*

Mae 'Canllaw Egwyddorion Cyffredinol' y Cyngor Dedfrydu yn cynnwys defnyddio arf fel ffactor gwaethygol, sy'n berthnasol i bob trosedd lle defnyddiwyd arf mewn unrhyw gyd-destun. Rhaid i'r llysoedd ddilyn unrhyw ganllawiau dedfrydu perthnasol oni bai fod gwneud hynny yn groes i fuddiannau cyfiawnder. Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys unrhyw fath penodol arall o drais a allai fod yn ddull o ladd fel ffactor gwaethygol.

*Cyfnodau byrraf ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf a ddygir i'r lleoliad gyda bwriad o'i gymharu â phob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf*

Mae'r dadansoddiad ffeiliau achos o laddiadau domestig partner agos a wnaed ar gyfer yr Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig[10] yn awgrymu bod y man cychwyn 25 mlynedd yn golygu bod p'un a gafodd arf ei gludo i'r lleoliad gyda bwriad yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i hyd cyffredinol y cyfnod byrraf terfynol a osodwyd. Yn y sampl hwn, y cyfnod byrraf cyfartalog ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf a gymerwyd i'r lleoliad gyda bwriad oedd 24.5 mlynedd (lle roedd y man cychwyn 25 mlynedd yn berthnasol), tra bod y cyfnod byrraf cyfartalog ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf mewn amgylchiadau eraill yn 19 mlynedd (lle'r oedd y man cychwyn 15 mlynedd yn berthnasol).

Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn dangos, er bod y gwahaniaeth o 10 mlynedd yn y mannau cychwyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol, mae defnyddio ffactorau gwaethygol yn golygu bod y gwahaniaeth hwn yn llawer llai na 10 mlynedd. Y gwahaniaeth cyfartalog yn y cyfnodau byrraf terfynol a roddir rhwng llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu

[10] Gweler yr Asesiad Effaith cysylltiedig ar gyfer yr ymgynghoriad hwn; ac Atodiad D, Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig (publishing.service.gov.uk)

arf a aethpwyd i'r lleoliad gyda bwriad, a phob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf yw 5.5 mlynedd.

## Cwestiwn 2.1

Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried a ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall ai peidio.

Ac eithrio llofruddiaethau sy'n ymwneud ag arfau tanio a'r rheini a gyflawnir gyda chyllell neu arf a ddygir i'r lleoliad gyda bwriad, nid oes mannau cychwyn, na ffactorau gwaethygol statudol, ar gyfer dulliau penodol o ladd yn Atodlen 21. Felly, byddai'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd fel arfer yn berthnasol i bob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf, neu drwy unrhyw ddull lladd arall (oni bai bod amgylchiadau'r lladd yn golygu bod y man cychwyn 30 mlynedd neu Orchymyn Oes Gyfan yn berthnasol).

Codwyd pryderon, yn wahanol i'r man cychwyn 25 mlynedd ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf a ddygir i'r lleoliad gyda bwriad, nad yw Atodlen 21 yn cynnwys man cychwyn penodol ar gyfer pob llofruddiaeth arall a gyflawnir gyda chyllell neu arf. Mae'r pryder hwn yn arbennig o berthnasol i achosion o lofruddiaeth ddomestig sy'n digwydd yn fwy cyffredin mewn cartref, ac felly os defnyddir arf, cyllell gegin yn aml, mae'n debygol ei fod eisoes wedi bod yn y fan hon, ac felly ni fyddai'r man cychwyn 25 mlynedd yn berthnasol.

Ystyriwyd y mater hwn yn yr Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig. Mewn ymateb, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno deddfwriaeth i roi ystyriaeth arbenigol i lofruddiaethau domestig yn y fframwaith dedfrydu. Mae hyn yn cynnwys ffactorau gwaethygol statudol newydd ar gyfer llofruddiaethau a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, ac ar gyfer gor-laddiad. Bydd deddfwriaeth i wneud lladd sy'n gysylltiedig â diwedd perthynas yn ffactor gwaethygol statudol yn cael ei chyflwyno pan fydd amser seneddol yn caniatáu hynny. Er mai mater i'r barnwr yw penderfynu ar y pwysau priodol i'w roi i'r ffactorau gwaethygol ym mhob achos, gan adlewyrchu annibyniaeth y farnwriaeth, rydym yn disgwyl, gyda'i gilydd, y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith sylweddol ar y cyfnodau byrraf a roddir i'r cyflawnwyr yn yr achosion hyn. Bydd hyn yn cynnwys llawer o achosion a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall.

Ers i'r Llywodraeth ymrwymo i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, mae rhai wedi dadlau nad yw'r newidiadau hyn yn mynd yn ddigon pell a bod gwahaniaeth annheg o hyd rhwng y mannau cychwyn ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf a aethpwyd i'r lleoliad gyda bwriad (25 mlynedd) a phob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf (fel arfer 15 mlynedd, ac eithrio llofruddiaethau sy'n ymwneud ag arfau tanio). Gwahaniaeth sy'n arbennig o berthnasol i lofruddiaethau a gyflawnir mewn cyd-destun domestig.

Felly, rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid diwygio Atodlen 21 ymhellach, yn ogystal â'r newidiadau y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig. Byddai man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer pob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall yn dileu neu'n lleihau'r gwahaniaeth mewn mannau cychwyn a byddai'n cydnabod mewn statud ddifrifoldeb penodol y dull hwn o ladd ym mhob achos o'r fath.

Fodd bynnag, gallai hyn roi gormod o bwyslais mewn statud ar y dull lladd a gallai osod cynsail o geisio rhestru dulliau lladd mewn statud. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain yn anfwriadol at leihau difrifoldeb cymharol y ffordd y mae dulliau lladd eraill, fel tagu neu guro, yn cael eu hystyried at ddibenion dedfrydu.

## Cwestiwn 2.2

Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried, pe bai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall, beth ddylai'r man cychwyn fod.

Un dull yw dileu'r gwahaniaeth rhwng mannau cychwyn drwy ehangu'r man cychwyn 25 mlynedd presennol, fel ei fod yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf. Mae'n debyg y byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y cyfnodau byrraf a roddir ar gyfer llawer o lofruddiaethau lle defnyddiwyd cyllell neu arf ond na chafodd ei gario i'r lleoliad gyda bwriad.

Byddai'r dull hwn yn golygu cynnydd o 10 mlynedd yn y man cychwyn ar gyfer llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf nad oedd wedi cael ei gludo i'r lleoliad gyda bwriad. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad[11] wedi dangos bod y gwahaniaeth cyfartalog yn y cyfnodau byrraf terfynol a osodwyd rhwng llofruddiaethau a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf a gymerwyd i'r lleoliad gyda bwriad (man cychwyn 25 mlynedd) a phob llofruddiaeth arall a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf (man cychwyn 15 mlynedd) yn 5.5 mlynedd.

Rydym yn disgwyl y bydd y ffactorau gwaethygol newydd y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydau Lladdiad Domestig yn golygu y bydd y cyfnod byrraf terfynol a roddir yn yr achosion mwyaf difrifol o lofruddiaeth ddomestig yn cynyddu'n sylweddol, gan gynnwys y rheini sy'n defnyddio cyllell neu arf arall. Felly, mae defnyddio ffactorau gwaethygol yn golygu efallai na fydd angen cynnydd o 10 mlynedd yn y man cychwyn er mwyn cyflawni cyfnodau byrraf o 25 mlynedd ar gyfer mwy o achosion o lofruddiaeth domestig.

[11]Gweler yr Asesiad Effaith cysylltiedig ar gyfer yr ymgynghoriad hwn; ac Atodiad D, Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig (publishing.service.gov.uk)

Opsiwn arall yw man cychwyn newydd rhwng 15 a 25 mlynedd ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall nad yw wedi cael ei gludo i'r lleoliad yn fwriadol. Byddai'r newid hwn yn lleihau, yn hytrach na dileu'r gwahaniaeth mewn mannau cychwyn, ond byddai'n debygol o arwain at gynnydd yn y cyfnodau byrraf a bennir ar gyfer llawer o'r llofruddiaethau hyn i tua 25 mlynedd.

Gyda'r dull hwn, byddai llofruddiaethau a gyflawnir gyda chyllell neu arf yn fwriadol, a'r rheini sy'n ymwneud ag arfau tanio, yn cadw man cychwyn uwch i gydnabod y lefel sylweddol o ragfwriad a throseddoldeb sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn a'r angen i ddiogelu'r cyhoedd rhag meddiant anghyfreithlon a defnyddio arfau'n gyhoeddus.

## Cwestiwn 2.3

Mae'r cwestiwn hwn yn ystyried, pe bai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gan ddefnyddio cyllell neu arf arall, y dylid gallu datgymhwyso hyn mewn achosion lle mae dioddefwr camdriniaeth wedi lladd y sawl sy'n eu cam-drin.

Menywod yw'r rhan fwyaf o ddioddefwyr mewn achosion o laddiad domestig. Mae'r dioddefwr yn fenywaidd mewn tua 3 o bob 10 lladdiad, ond mewn tua 8 o bob 10 lladdiad domestig gan bartner agos.[12] Anaml y mae lladdiadau domestig yn ddigwyddiadau ynysig. Maent yn aml yn benllanw blynyddoedd o gam-drin ac yn y rhan fwyaf o achosion, cyflawnwyd y cam-drin hwn gan y sawl a gyflawnodd y llofruddiaeth, dyn fel arfer, yn erbyn y dioddefwr, menyw fel arfer. Fodd bynnag, mae lleiafrif o laddiadau domestig yn cynnwys dioddefwr cam-drin sydd wedi lladd yr unigolyn sy'n ei gam-drin. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, mae'r sawl sydd wedi cyflawni'r lladdiad, sef y sawl a ddioddefodd y gamdriniaeth, yn fenyw.

Canfu dadansoddiad a wnaed ar gyfer yr Adolygiad Dedfrydu Lladdiad Domestig, ym mhob achos pan fo menywod yn lladd eu partner gwrywaidd, y gwnaed hynny gan ddefnyddio arf.[13] Roedd traean o achosion llofruddiaeth gyda chyflawnydd gwrywaidd yn gysylltiedig â thagu. Canfu'r dadansoddiad hefyd, pan fydd menyw yn lladd gydag arf, ei bod yn aml yn cynnwys un ergyd, tra bo dros hanner y llofruddiaethau a gyflawnir gan ddynion yn or-laddiad (defnyddio trais gormodol).

Petai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall, gallai hyn fod yr un mor berthnasol i bob achos o'r fath. Byddai hyn yn cynnwys un ergyd gyda chyllell gan fenyw sydd wedi dioddef camdriniaeth, sydd wedi dod i ben ei thennyn ac wedi rhoi ergyd i'w chamdriniwr, ac ymosodiad treisgar iawn gan ddyn a oedd wedi cam-drin y dioddefwr cyn ei ladd.

---

[12] Homicide in England and Wales - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

[13] Gweler Atodiad D, Adolygiad Dedfrydu Dynladdiad Domestig (publishing.service.gov.uk)

Er mai pob achos o lofruddiaeth yw'r drosedd waethaf y gall person ei chyflawni, gallai'r newid hwn gael effaith benodol ac arwyddocaol ar y cyfnodau byrraf a osodir ar fenywod sy'n dioddef camdriniaeth ac sy'n lladd y sawl sy'n eu cam-drin. Efallai ei bod yn annheg i'r menywod hyn gael cynnydd sylweddol yn cyfnodau byrraf am ddefnyddio arf i wneud hynny, sy'n digwydd yn ddieithriad oherwydd yr anghydbwysedd mewn cryfder corfforol.

Mewn ymateb i'r Adolygiad o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn ffactor lliniarol statudol ar gyfer llofruddiaeth mewn achosion lle mae dioddefwr camdriniaeth wedi lladd ei chamdriniwr. Pe bai man cychwyn ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall, gallai'r ffactor lliniarol statudol newydd hwn fod yn ffordd ddigonol o gydnabod bregusrwydd cyflawnwyr yn yr amgylchiadau hyn.

Fodd bynnag, rydym yn rhagweld na fyddai cymhwyso'r ffactor lliniarol statudol newydd i fan cychwyn 25 mlynedd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn lleihau'r cyfnod byrraf terfynol a roddir i oddeutu 15 mlynedd; y man cychwyn a fyddai'n berthnasol mewn amgylchiadau lle mae partner camdriniol wedi llofruddio ei ddioddefwr heb arf.

Felly, gall fod yn gymesur darparu ar gyfer cydnabod bregusrwydd cyflawnwyr yn yr amgylchiadau hyn drwy ddatgymhwyso unrhyw fan cychwyn uwch o'r fath iddynt.

**C2.1. A ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arfa arall ai peidio?**

**C2.2. Petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall, beth ddylai'r man cychwyn fod?**

**C2.3 Pe bai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gan ddefnyddio cyllell neu arf arall, a ddylid datgymhwyso hyn mewn achosion lle mae dioddefwr camdriniaeth wedi lladd y sawl sy'n eu cam-drin ai peidio?**

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur Ymgynghori hwn.

## Adran 1: Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth

**Cwestiwn 1.1:** A ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth ai peidio?

- Dylai
- Na
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb yn gryno.

**Cwestiwn 1.2:** Petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, beth ddylai'r man cychwyn fod?

- Amh. - anghytuno â chyfnod byrraf sy'n uwch na'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd ar gyfer achosion sydd â hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol
- Rhwng 15 mlynedd a 25 mlynedd
- 25 mlynedd
- Arall - rhowch fanylion isod
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb yn gryno.

**Cwestiwn 1.3:** Pe bai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i achosion o lofruddiaeth a ragflaenwyd gan hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn erbyn dioddefwr y llofruddiaeth, a ddylai hyn fod yn berthnasol i bob achos lle'r oedd ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol neu ddim ond i'r achosion hynny lle'r oedd yr ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol ar lefel uchel o ran difrifoldeb?

- Pob achos sydd â hanes o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol
- Dim ond achosion o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol â lefel uchel o ddifrifoldeb
- Arall - rhowch fanylion isod
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb yn gryno.

## ADRAN 2: Man cychwyn cyfnod byrraf ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall

**Cwestiwn 2.1:** A ddylai man cychwyn cyfnod byrraf, uwchlaw'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd, fod yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gyda chyllell neu arf arall ai peidio?

- Dylai
- Na
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb yn gryno.

**Cwestiwn 2.2:** Petai man cychwyn cyfnod byrraf yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnir gyda chyllell neu arf arall, beth ddylai'r man cychwyn fod?

- Amh. - anghytuno â chyfnod byrraf sy'n uwch na'r man cychwyn sylfaenol o 15 mlynedd ar gyfer pob llofruddiaeth a gyflawnir â chyllell neu arf
- Rhwng 15 mlynedd a 25 mlynedd
- 25 mlynedd
- Arall - rhowch fanylion isod
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau neu esboniwch eich ateb yn gryno.

**Cwestiwn 2.3:** Pe bai man cychwyn yn berthnasol i bob llofruddiaeth a gyflawnwyd gan ddefnyddio cyllell neu arf arall, a ddylid datgymhwyso hyn mewn achosion lle mae dioddefwr camdriniaeth wedi lladd y sawl sy'n eu cam-drin ai peidio?

- Dylid
- Na
- Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb yn gryno.

**Cwestiwn 3.1:** A ydych yn cytuno neu'n anghytuno ein bod wedi nodi'n gywir hyd a lled yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan Adran 1 y cynigion hyn a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb os ydych yn credu fel arall.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich ateb yn gryno.

**Cwestiwn 3.2:** A ydych yn cytuno neu'n anghytuno ein bod wedi nodi'n gywir hyd a lled yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan Adran 2 y cynigion hyn a nodir yn yr ymgynghoriad hwn? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb os ydych yn credu fel arall.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich ateb yn gryno.

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi'n cynrychioli grŵp,** rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 04 Mawrth 2024 at:

Sentencing and Parole Policy Division
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

E-bost: murdersentencingconsultation@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/murder-sentencing-consultation/.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan murdersentencingconsultation@justice.gov.uk

## Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UKGDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o’r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Asesiad Effaith a Datganiad Cydraddoldeb

## Asesiad Effaith

Mae asesiad effaith ar wahân wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

## Datganiad Cydraddoldeb

Mae datganiad cydraddoldeb ar wahân wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A

## Atodlen 21 Deddf Dedfrydu 2020

Dyma ddyfyniad o Atodlen 21 Deddf Ddedfrydu 2020, sef y fframwaith dedfrydu deddfwriaethol ar gyfer llofruddiaeth. Nid yw hyn yn adlewyrchu unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig y mae'r Llywodraeth wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar mewn perthynas â Gorchmynion Oes Gyfan a ffactorau gwaethygol a lliniarol statudol newydd i lofruddiaeth.

**PENNU CYFNOD BYRRAF YNG NGHYSWLLT DEDFRYD OES GORFODOL AR GYFER LLOFRUDDIAETH ETC**

*Mannau Cychwyn*

2 (1) Os –

(a) yw'r llys o'r farn bod difrifoldeb y trosedd (neu gyfuniad y trosedd ac un neu fwy o droseddau sy'n gysylltiedig ag ef) yn eithriadol o uchel, a

(b) roedd y troseddwr yn 21 oed neu'n hŷn pan gyflawnwyd y trosedd,

y man cychwyn priodol yw gorchymyn oes gyfan.

(2) Mae achosion a fyddai fel arfer yn dod o fewn is-baragraff (1)(a) yn cynnwys –

(a) llofruddiaeth dau berson neu fwy, pan fo pob llofruddiaeth yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol—

(i) cryn dipyn o ragfwriad neu gynllunio

(ii) herwgydio'r dioddefwr, neu

(iii) ymddygiad rhywiol neu sadistaidd

(b) llofruddio plentyn os yw'n ymwneud â herwgydio'r plentyn neu gymhelliant rhywiol neu sadistaidd

(c) llofruddiaeth swyddog heddlu neu swyddog carchar yn ystod ei ddyletswydd, lle cyflawnwyd y drosedd ar neu ar ôl 13 Ebrill 2015

(d) llofruddiaeth a wneir at ddibenion hyrwyddo achos gwleidyddol, crefyddol, hiliol

(e) Llofruddio gan droseddwr a gafwyd yn euog o lofruddiaeth yn y gorffennol

3 (1) Os –

(a) nad yw'r achos yn dod o fewn paragraff 2 (1) ond bod y llys o'r farn bod difrifoldeb y trosedd (neu gyfuniad y trosedd ac un neu ragor o droseddau sy'n gysylltiedig ag ef) yn arbennig o uchel, a

(b) roedd y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn pan gyflawnwyd y trosedd,

y man cychwyn priodol, wrth benderfynu ar y cyfnod byrraf, yw 30 mlynedd.

(2) Mae achosion a fyddai (os nad ydynt o fewn paragraff 2(1) fel arfer yn dod o fewn is-baragraff (1)(a) yn cynnwys –

yn achos trosedd a gyflawnwyd cyn 13 Ebrill 2015, llofruddiaeth heddwas neu swyddog carchar yn ystod ei ddyletswydd

(a) llofruddiaeth sy'n ymwneud â defnyddio arf tanio neu ffrwydron

(b) llofruddiaeth a wneir er budd (megis llofruddiaeth a gyflawnir wrth hyrwyddo lladrad neu fyrgleriaeth, a wnaed am daliad neu a wnaed yn unol â'r disgwyliad o ennill o ganlyniad i'r farwolaeth)

(c) llofruddiaeth y bwriedir iddi rwystro neu ymyrryd â chwrs cyfiawnder

(d) llofruddiaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol neu sadistaidd

(e) llofruddio dau neu fwy o bobl

(f) llofruddiaeth a waethygir gan elyniaeth hiliol neu elyniaeth sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol

llofruddiaeth a waethygir gan elyniaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol, lle cyflawnwyd y drosedd ar 3 Rhagfyr 2012 neu ar ôl hynny (neu dros gyfnod, neu ar ryw adeg yn ystod cyfnod, a ddaeth i ben ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw)

llofruddiaeth o fewn paragraff 2(2) a gyflawnwyd gan droseddwr dan 21 oed pan gyflawnwyd y trosedd

(3)Caiff trosedd ei waethygu yn unrhyw un o'r ffyrdd a grybwyllir yn is-baragraff (2)(g) neu (h) os yw adran 66 yn ei gwneud yn ofynnol i'r llys drin y ffaith ei fod mor waethygedig fel ffactor gwaethygol

4 (1) Os –

nad yw'r achos yn dod o fewn paragraff 2(1) neu 3(1)

yw'r trosedd yn dod o fewn is-baragraff (2) a

roedd y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn pan gyflawnwyd y trosedd,

cyflawnwyd y trosedd ar 2 Mawrth 2010 neu ar ôl hynny

fel arfer mae'r trosedd i'w ystyried yn ddigon difrifol i'r man cychwyn priodol, wrth bennu'r cyfnod byrraf, fod yn 25 mlynedd.

(2) Mae'r trosedd yn dod o fewn yr is-baragraff hwn os aeth y troseddwr â chyllell neu arf arall i'r fan gan fwriadu –

cyflawni unrhyw drosedd neu

iddo fod ar gael i'w ddefnyddio fel arf

a defnyddio'r gyllell honno neu arf arall i gyflawni'r llofruddiaeth

5 Os oedd y troseddwr yn 18 oed neu hŷn pan gyflawnwyd y trosedd ac nad yw'r achos yn dod o fewn paragraff 2(1), 3(1) neu 4(1), y man cychwyn priodol, wrth benderfynu ar y cyfnod byrraf, yw 15 mlynedd.

6 Os oedd y troseddwr dan 18 oed pan gyflawnwyd y trosedd, y man cychwyn priodol, wrth bennu'r cyfnod byrraf, yw 12 mlynedd

*Ffactorau gwaethygol a lliniarol*

7 Ar ôl dewis man cychwyn, dylai'r llys ystyried unrhyw ffactorau gwaethygol neu liniarol, i'r graddau nad yw wedi caniatáu ar eu cyfer yn ei ddewis o fan cychwyn.

8 Gall ystyriaeth fanwl o ffactor gwaethygol neu liniarol arwain at gyfnod byrraf o unrhyw hyd (beth bynnag yw'r man cychwyn), neu wrth wneud gorchymyn oes gyfan.

9 Mae ffactorau gwaethygol (sy'n ychwanegol at y rhai a grybwyllir ym mharagraffau 2(2), 3(2) a 4(2) a all fod yn berthnasol i'r trosedd o lofruddiaeth yn cynnwys –

(a) lefel sylweddol o gynllunio neu ragfwriad

y ffaith bod y dioddefwr yn arbennig o agored i niwed oherwydd oedran neu anabledd

dioddefaint meddyliol neu gorfforol a gafodd ei achosi i'r dioddefwr cyn iddo farw

(b) camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth

(c) defnyddio gorfodaeth neu fygythiadau yn erbyn person arall i hwyluso cyflawni'r trosedd

(d) y ffaith bod y dioddefwr yn darparu gwasanaeth cyhoeddus neu'n cyflawni dyletswydd gyhoeddus, a

(e) chelu, distrywio neu ddatgymalu'r corff

10 Mae ffactorau lliniarol a allai fod yn berthnasol i'r trosedd o lofruddiaeth yn cynnwys -

(a) bwriad i achosi niwed corfforol difrifol yn hytrach na lladd

(b) dim rhagfwriad

(c) roedd y ffaith bod y troseddwr yn dioddef o unrhyw anhwylder meddwl neu anabledd a oedd (er nad oedd yn dod o fewn adran 2(1) Deddf Lladdiad 1957) yn lleihau lefel beiusrwydd y troseddwr

(d) y ffaith bod y troseddwr wedi cael ei bryfocio (er enghraifft, gan straen hir) ond, yn achos llofruddiaeth a gyflawnwyd cyn 4 Hydref 2010, mewn ffordd nad oedd yn gyfystyr ag amddiffyniad o gythruddo

(e) y ffaith bod y troseddwr wedi gweithredu i unrhyw raddau mewn hunanamddiffyniad neu, yn achos llofruddiaeth a gyflawnwyd ar neu ar ôl 4 Hydref 2010, mewn ofn o drais

(f) cred gan y troseddwr mai gweithred o drugaredd oedd y llofruddiaeth, ac

oed y troseddwr

11 Nid oes dim yn yr Atodlen hon yn cyfyngu ar gymhwyso –

(a) adran 65 (euogfarnau blaenorol)

(b) adran 64 (mechnïaeth), neu

(c) adran 73 (pledio'n euog)

neu adran 238(1)(b) neu (c) neu 239 Deddf y Lluoedd Arfog 2006.

E03020145

978-1-5286-4569-0

E03020145

978-1-5286-4569-0